

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 4ydd 2016 yn Ffestri Glanrafon. Yn bresennol oedd Gary Thomas (cadeirydd), Gwenda Evans, Gethin Morris, Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Pritchard, Tina Davies, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Iolo Evans a Alwyn Jones.

Croesawyd Huw Antur i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniad a'r waith a chyfrifon y Bartneriaeth a Cwmni Pum Plwy Penllyn. Eglurwyd hefyd eu cynlluniau i geisio am arian i adnewyddu llawr uchaf yr Henblas. Diolchwyd i Huw am fynychu'r cyfarfod.

Cydymdeimlwyd a Maldwyn Jones yn dilyn ei brofedigaeth yn ddiweddar.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Biniâu Halen.

Roedd y Deilydd Portffolio John Wyn Jones wedi gyrru'n ôl at y Bartneriaeth yn egluro na fyddai yn ymweld â'r ardal i drafod eu bwriad i godi tal ar y Cynghorau Cymuned i ail lenwi'r biniâu halen ac ni fyddai cyfaddawd ar y mater. Cytunwyd yn unfrydol i gydweithio a Chyngor Cymuned Llanycil i ddod a'r mater yma i sylw'r trigolion drwy'r wasg leol.

b) Tacluso ym mynwent Llanfor.

Roedd y cynghorwyr wedi archwilio'r fynwent ac roedd llawer iawn o waith clirio angen ei wneud. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu â chontractwyr lleol i gael prisiau i neud y gwaith. Cytunodd Garry Thomas cynghori'r contractwyr o'r gwaith oedd angen ei wneud.

c) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

i) Neuadd y Cyfnod.

Cafwyd cadarnhad fod y Cyngor Tref wedi bod yn ceisio cysylltu â'r perchennog ond heb fod yn llwyddiannus hyd yn hyn.

ii) Gwasanaeth ailgylchu.

Cafwyd cadarnhad bod yr adran ailgylchu wedi pasio'r cwynion ymlaen i'r Uned Waith sydd yn trefnu'r casgliadau.

iii) Car wedi ei adael ger Cae Garnedd, Celyn.

Cafwyd cadarnhad bod y cerbyd yn gyfreithlon i fod ar y ffordd ac nid oedd posib ymyrud ar hyn o bryd.

iv) Torri ochrau'r ffyrdd.

Cafwyd cadarnhad bod sylwadau'r Cyngor wedi cael eu cofnodi ac roedd y contractwr am drefnu i ddefnyddio peiriannau addas ar gyfer ffyrdd gwledig yr ardal flwyddyn nesaf.

v) Problem parcio ar gyffordd y Sgwâr Trefalgar, Llandderfel.

Roedd y clerch wedi cysylltu gyda'r heddlu ac wedi cael ymateb cefnogol iawn. Mi roedd yr heddwision am ymweld â'r pentref i ddsbarthu taflenni gwybodaeth a chynghori'r trigolion

iv) Blwch postio Llanfor.

Er i'r clerch geisio ail egluro i swyddog y Post Brenhinol mae maint y blwch oedd y rheswm bod cyn lleied yn ei ddefnydd nid oeddynt wedi cymryd unrhyw sylw ac yn gwrthod lleoli blwch postio newydd yn y pentref.

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Hydref.

b) Amrywiol

i) Eluned Morgan, AC - Arolwg datblygu cymunedol ac economaidd y canolbarth a'r gorllewin. Cytunwyd i gwblhau'r holiadur.

ii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - Arolwg 2018 o etholiadau seneddol yng Nghymru. Cytunwyd i ymateb yn nol yn gwrthwynebu'r bwriad i uno wardiau Llanuwchllyn, Llandderfel a'r Bala gyda rhai o wardiau De Clwyd a Sir Faldwyn i greu etholaeth o dan yr enw De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn.

iii) Un Llais Cymru – Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 21/9/16.

iv) Bwrdd Rhaglen Carchar Gogledd Cymru - Gwahoddiad i gyfarfod cymunedol ym Mangor, 20/10/16, i drafod y carchar newydd HMP Berwyn, Wrecsam

v) Gweinyddiaeth Cyfiawnder – Ymateb i'r cynnig ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru.

vi) BT - llythyr yn egluro eu bod yn ymgynghori ynglŷn â'r bwriad i dynnu ciosg ffon ym mhentrefi Glanrafon a Llanfor. Yn nol yr adroddiad nid oedd defnydd i'r ffonau felly nid oedd yn hawdd i'w wrthwynebu.

iii) Ceisiadau Cynllunio

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

C16/1044/04/LL – Mynedfa gerbydol newydd. Dyffryn Tawel, Glanrafon.

Roedd pryderon am ddiogelwch y safle ond cytunwyd i gefnogi'r cais gan nodi fod y Cyngor yn gefnogol i'r bwriad o greu mynediad newydd os oedd y cynllun yn dderbyniol gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd.

iv) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Adroddiad Blynyddol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir. Nodwyd y materion yn codi a cytunwyd i sicrhau bod penderfyniad y Cyngor ynglŷn a chadw arian tu cefn yn cael ei nodi'n glirach ar y gyllideb y tro nesa. Cytunwyd i'w gymeradwyo ac arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' ar y wefan.

c) Cytunwyd i dalu cyflog a chostau'r clerc (Gorff – Medi). Cytunwyd i beidio cyfrannu tuag at gostau rhedeg yr Henblas ar hyn o bryd a'i drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

v) Materion lleol.

a) Beddfaen ym mynwent Llandderfel.

Derbyniwyd cais i brynu beddfaen o flaen llaw ym mynwent Llandderfel. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu yn nol i egluro nad oedd y Cyngor yn gwerthu beddfaen o flaen llaw.